| CV ACADEMAIDD AR GYFER UWCH DDARLITHYDD - NODIADAU CYFARWYDDYD | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Nodiadau Cyfarwyddyd** |
| **GWYBODAETH BERSONOL** | |
| 1 | Nodwch brif sail eich cais, h.y. â phwyslais ar ymchwil, â phwyslais ar addysgu a dysgu, â phwyslais ar gyfraniad ehangach (yn cynnwys addysgu a dysgu a / neu ymchwil). |
| **SWYDD BRESENNOL** | |
| 2 | Nodwch eich swydd bresennol. Nodwch eich dyddiad cychwyn yn eich swydd bresennol. |
| **SWYDDI BLAENOROL** | |
| 3 | Nodwch eich hanes gyrfaol, gan restru mewn trefn gronolegol eich holl swyddi blaenorol. Os oes bylchau yn eich gyrfa a fyddech mor garedig â'i gynnwys, ynglŷn ag eglurhad a nodyn, os yn eich barn chwi mae rhai'n wedi cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad eich gyrfa. |
| **CYMWYSTERAU** | |
| 4 | Nodwch y rhain mewn trefn gronolegol. |
| **ADDYSGU A DYSGU** | |
| 5.1 | • Rhestrwch dystiolaeth o'ch holl gyfrifoldebau addysgu ar gyrsiau trwy ddysgi, ar lefel ôl-radd ac is-radd, yn ystod y 2 flwyddyn academaidd flaenorol.<br>• Gan y gall cyfraniad y flwyddyn hon fod yn anghyflawn, ychwanegwch baragraff byr ar weithgareddau'r blynyddoedd hyn, gan nodi'n arbennig unrhyw ddatblygiadau o bwys a fo wedi digwydd ers y blynyddoedd cynt.<br>• Cynhwyswch eich ffurflenni QA2 diweddaraf, ac ystadegau neu grynodebau (e.e. ARQUE) ynglŷn â gwerthusiad y myfyrwyr o'ch modiwlau. Gall tystiolaeth hefyd gynnwys adborth gan fentoriaid, adborth gan bwyllgorau cyrsiau, ymgynghoriadau staff-myfyrwyr, arolygu gan gydweithwyr, adborth gan arholwyr allanol.<br><br>*Gellwch roi'r wybodaeth hon ar dudalen ar wahân / mewn atodiad os yw'n rhwyddach.* |
| 5.2 | • Nodwch unrhyw gyfraniad at yr Ysgol/ Coleg trwy ddatblygu ac asesu ar y rhaglen, trefnau amserlennu ac arholi, a rheolaeth gyffredinol ar addysgu.<br>• Amlygwch hefyd amrediad eich cyfraniadau at waith addysgu, megis darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau ymarferol a theithiau maes, a gwaith mewn addysg barhaol a chyrsiau byrion.<br>• Nodwch unrhyw gyfraniadau perthnasol o ran addysgu a datblygu rhaglenni trwy'r Gymraeg, yn cynnwys addysgu a goruchwylio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill (yng Nghymru ac ymhellach). |
| 5.3 | Dylai hyn gynnwys unrhyw ymyriadau arloesol, megis:<br>• dulliau newydd o roi gwybodaeth gymhleth;<br>• defnyddio technoleg fel cymorth addysgu;<br>• arferion o ran asesu;<br>• gweithgareddau hyfforddi;<br>• gwobrau megis Cymrawd Dysgu;<br>• cyfraniadau at gyrsiau byrion a chysylltiadau â diwydiant/ y sector cyhoeddus;<br>• addysgu y tu allan i'r Coleg;<br>• Sicrhau grantiau a chontractau addysgu, a chyllid ar gyfer projectau cysylltiedig ag addysgu yn Gymraeg/ Saesneg;<br>• Addysgu rhyngddisgyblaethol, ac<br>• Addysgu rhyngsefydliadol.<br>Rhowch enghreifftiau o gyfraniadau at bedagogeg y maes pwnc/ arfer proffesiynol ac ysgolheictod yng nghyswllt addysgu a dysgu, megis oeddiadau ym maes addysg a llunio testunau addysgu. |
| 5.4 | Rhowch amlinelliad byr o'ch cyfraniad i'r maes yma. |

<table>
<tr><th colspan="2">YMCHWIL</th></tr>
<tr><td>6.1</td><td>Rhowch amlinelliad byr o’ch gweithgaredd ymchwil presennol.</td></tr>
<tr><td>6.2</td><td>Rhowch eich holl gyhoeddiadau mewn trefn gronolegol, gan ddilyn ym mhob categori'r arddull o gyfeirnodi sy’n briodol i’ch maes academaidd. Rhowch radd i bob cyhoeddiad a restrir gan ddefnyddio'r system ddosbarthu a roddir isod (A/B/C/D). Gall fod o fudd i’ch achos os cyflwynwch ddata ar ffactorau yn ymwneud â’ch cyfraniad at gylchgronau ac â dyfyniadau o’ch gwaith lle defnyddir y rhain yn eang yn eich maes. Peidiwch â chynnwys ond meysydd y cynnyrch ymchwil sy’n berthnasol.<br><br>
• Derbynnir projectau ymchwil a gomisiynwyd fel tystiolaeth o weithgarwch ymchwil. Nodwch a yw’r rhain wedi’u derbyn neu a ydynt wrthi’n cael eu hadolygu.<br>
• Nodwch a yw’r cylchgrawn yn academaidd, yn broffesiynol neu’n boblogaidd.<br><br>
Lle bo modd, dylai ymgeiswyr ddefnyddio’r drefn ddosbarthu ganlynol yn achos pob cyhoeddiad a restrir:<br><br>
(A) – Cyhoeddiad a gydnabyddir yn brif gyfraniad tuag at bwnc, naill ai o ran torri tir newydd neu fel astudiaeth swyddogol. Adolygiad o’r pwnc a ddyfynnir yn aml. Mae hyn yn cyfateb i dair seren neu uwch yn nhermau REF. Gellir dynodi graddfa A+ i bapurau neilltuol o dda.<br><br>
(B) – Papur mewn cylchgrawn o bwys, yn cynnwys deunydd newydd empirig/damcaniaethol sylweddol neu ddehongliad a/ neu ddadansoddiad newydd. O bosibl yn rhan o gyfres o astudiaethau sy’n gwneud cyfanwaith sylweddol. Mae hyn yn cyfateb i ddwy seren neu uwch yn nhermau REF.<br><br>
(C) – Papur yn cynnwys diwygiadau o bwys ar dechneg, neu ehangiad ar gymhwysiad a all gynnwys croniad o ddata ychwanegol a defnyddiol, er ar raddfa fach, eglurhad cryno o waith arall neu sylwadau ar hynny. Adolygiad llyfr sylweddol sy’n mynd â phwnc neu destun gam ymhellach.<br><br>
(D) – Hysbysiad cychwynnol, effemera, crynodeb ar gyfer cynhadledd, erthyglau eglurhaol yn unig neu adolygiad ar lyfr (heblaw hysbysiad byr).<br><br>
Gall y ffynonellau o wybodaeth (yn ôl eich maes pwnc) gynnwys:<br><br>
CYHOEDDIADAU:<br>
• Llyfrau, monograffau, gweithiau golygedig, cyfraniadau at lyfrau a phenodau;<br>
• Erthyglau mewn cylchgronau neu lythyrau (nodwch a yw’r cylchgrawn yn academaidd, yn broffesiynol neu’n boblogaidd);<br>
• Cyfraniadau at drafodaethau cynadleddau a gyhoeddwyd.<br><br>
Nodwch a ydych yn olygydd neu’n ganolwr ar gyfer unrhyw gylchgronau neu gyhoeddwyr ysgolheigaidd.<br><br>
CYFRANIADAU AT GYNADLEDDAU:<br>
Cyflwyno mewn cynadleddau neu drefnu cynadleddau.<br><br>
CYFRANIADAU PWNC-BENODOL:<br>
Papurau Gwaith Adrannol/ ar Ymchwil, Adroddiadau swyddogol (nodwch p’un a ydynt wedi’u cyhoeddi neu heb eu cyhoeddi, ond yn gyhoeddus), arddangosfeydd, comisiynau, perfformiad, dyluniadau peirianegol, cyfieithiadau, deunydd clyweledol, meddalwedd/ iaith gyfrifiadurol, cyfansoddiadau cerddorol, sgorau a sgriptiau.</td></tr>
<tr><td>6.3.</td><td>• Cynhwyswch fanylion am unrhyw gyllid yr ydych wedi gwneud cais amdano yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, gan nodi’r canlyniad.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Dylai cyllid at ymchwil, wedi'i ddadansoddi fesul blwyddyn, nodi swyddogaeth yr ymgeisydd o fewn ymchwil a gyllidwyd gan grŵp.<br>• Mae amlinelliad ar weithgaredd masnachol yn cynnwys gweithgaredd KTP, defnyddio Eiddo Deallusol, patentau, etc.<br>• Grantiau at ymchwil a chyllid ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig yn eich maes (e.e. AHRC/ESRC ac efrydiaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol). |
| 6.4 | Nodwch yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig heblaw'r rhai hyfforddedig yr ydych wedi'u goruchwylio ac wrthi ar hyn o bryd yn eu goruchwylio. Nodwch y lefel yr ydych wedi goruchwylio arni, e.e. Meistr/ PhD. |
| 6.5 | Nodwch pa gyfrifoldebau fu gennych ers 3 blynedd o ran arwain grŵp ymchwil a nodwch lefel eich cyfranogiad a maint eich cyfrifoldeb. Nodwch eich cyfraniad hefyd o ran mentoriaeth ffurfiol ac anffurfiol yn yr Ysgol/Brifysgol. |
| **CYFRANIAD EHANGACH AT Y BRIFYSGOL A'R GYMUNED (YN LLEOL, YN GENEDLAETHOL AC YN RHYNGWLADOL)** | |
| 7 | Nodwch nodweddion a lefel cyfraniad y swyddi penodol yr ydych wedi'u gwneud er mwyn cynnal rheolaeth effeithiol y Brifysgol ac i gynnal myfyrwyr. Amlinellwch eich swydd a'ch cyfrifoldebau yn y flwyddyn academaidd gyfredol, ynghyd â chrynodeb (mewn trefn gronolegol) o gyfraniadau mewn blynyddoedd a fu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:<br><br>• **Ysgol** – Cyfarwyddwr Cwrs, Swyddog UCAS/Derbyn Myfyrwyr, Tiwtor Blwyddyn, Cydlynydd Modiwl, Uwch Diwtor, cymryd rhan yn y drefn o dderbyn myfyrwyr, trefnu arholiadau, amserlennu, cyfrannu at recriwtio myfyrwyr, ac at drefnau achredu/Sicrhau Ansawdd.<br>• **Coleg** – Aelod o Bwyllgor Ymchwil / Pwyllgor Addysgu a Dysgu, Cydlynydd Addysgu yn y Coleg.<br>• **Prifysgol** – Aelod o'r Senedd, aelodaeth o bwyllgorau neu grwpiau tasg. Hefyd, nodwch unrhyw swyddogaeth(au) a gweithgareddau presennol a diweddar mewn undebau llafur.<br>• **Allanol -** dyletswyddau arholwr allanol mewn Colegau / Prifysgolion eraill, trefnu cynadleddau, gwasanaeth proffesiynol i sefydliadau eraill, aelodaeth o ymchwiliadau gan y Llywodraeth, cyrff cenedlaethol, comisiynau neu bwyllgorau, gwasanaeth i'r gymuned leol a chyrff gwirfoddol / awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth lleol. |
| **DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS** | |
| 8.1 | • Nodwch gynadleddau a seminarau ymchwil y buoch yn bresennol ynddynt a lle rydych wedi cyflwyno.<br>• Cynhwyswch weithgaredd DPP yn fewnol (e.e. cysylltiedig ag ymchwil, addysgu a dysgu, a chyrsiau a rhaglenni cysylltiedig â rheolaeth ac arweinyddiaeth. |
| 8.2 | Nodwch unrhyw gyfnod seibiant sabothol/astudio ac unrhyw gyfnod arwyddocaol oddi wrth waith e.e. absenoldeb mamolaeth/tadolaeth |
| 8.3 | Amlinellwch ddeilliannau eich seibiant sabothol/astudio ac unrhyw lwyddiannau/ cyfraniadau a gafwyd yn sgil y seibiant astudio. Beth oedd amcanion yr astudiaeth, ac a wireddwyd hwy? |
| 8.4 | Nodwch aelodaeth unrhyw gymdeithasau proffesiynol neu ddysgedig, aelodaeth o grwpiau proffesiynol yn ymwneud ag addysgu,ayb. |
| *Sylwch – gellwch hefyd gyflwyno datganiad diweddar y cytunwyd arno, yn gysylltiedig â Chynllun Arolygu Datblygiad Perfformiad, fel atodiad.* | |
| **UNRHYW WYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| 9 | Dylech gynnwys unrhyw wybodaeth na chyfeiriwyd ati eisoes a allai fod yn berthnasol i'ch cais. |
| **MANYLION CANOLWYR A LLOFNODION** | |
| 10 | Rhowch enwau tri chanolwr i gefnogi'r cais (bydd dau o'r rhain yn allanol - dylai un canolwr fod yn uwch aelod staff yn yr Ysgol). Disgwylir y bydd gan y canolwyr allanol ddigon o brofiad (fel rheol, ar lefel Athro) ac arbenigedd i roi tystlythyrau awdurdodol. Dylech sicrhau eich bod wedi rhoi copi o'ch ffurflen gais i'ch canolwyr er mwyn eu helpu i baratoi'r geirda. |
| | A fyddech cystal â llofnodi'r cais a sicrhau bod Pennaeth eich Ysgol neu Deon y Coleg wedi llofnodi i gadarnhau cywirdeb y cynnwys. |
| **Dychwelych y ffurflen i'r Adran Adnoddau Dynol erbyn 31 Ionawr neu 31 Gorffennaf.** | |